


the trussell trust
Stop UK Hunger

# DYFODOL HEB YR ANGEN AM FANCIAU BWYD

MANIFFESTO ETHOLIAD CYFFREDINOL YMDDIRIEDOLAETH TRUSSELL 2024

# CRYNODEB

## Dydy hi ddim yn iawn bod angen i unrhyw un ddefnyddio banc bwyd am nad yw'n gallu fforddio bwyta a thalu biliau. **Fodd bynnag, yn 2024, mae'r angen am fanciau bwyd ar ei lefel uchaf erioed.**

Dydy hi ddim yn iawn bod angen i unrhyw un ddefnyddio banc bwyd am nad yw'n gallu fforddio bwyta a thalu biliau. Fodd bynnag, yn 2024, mae'r angen am fanciau bwyd ar ei lefel uchaf erioed.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae banciau bwyd sy'n rhan o rwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell wedi dosbarthu mwy na 3.1 miliwn o barseli bwyd brys – y nifer mwyaf yn ein hanes. Mae hyn yn cynnwys mwy nag 1.1 miliwn o barseli i blant – bron dwbl y nifer o barseli a ddosbarthwyd bum mlynedd yn ôl (cynnydd o 94%).[1]

Mae hon yn record y dylem deimlo cywilydd ohono, a bydd y cyhoedd yn barnu'r llywodraeth nesaf ar p'un a fydd yn llwyddo i wrthdroi hyn. Mae 79% o'r cyhoedd yn y DU yn cytuno bod tlodi yn y DU yn broblem fawr. Mae 74% o'r farn mai cyfrifoldeb y llywodraeth yw newid hyn.[2]

Mae lefelau mor uchel o galedi yn niweidio iechyd ein cenedl, yn rhwystro'r economi, ac yn niweidio rhagolygon ein pobl ifanc. Dim ond drwy adeiladu cymdeithas lle gall pawb fforddio'r hanfodion y gallwn ni ddatgloi'r potensial yn ein cymunedau.

Mae angen i bobl ddefnyddio banciau bwyd am nad oes ganddyn nhw ddigon o arian ar gyfer yr hanfodion. Ond gall hyn i gyd newid. Rydym yn gwybod yr hyn sydd ei angen er mwyn rhoi diwedd ar yr angen am fanciau bwyd, ac rydym yn gwybod bod hynny'n bosibl os byddwn ni'n gwneud y penderfyniadau iawn.

**Mae'n 2024, ac rydym yn wynebu'r angen mwyaf erioed am fanciau bwyd. Wrth i ni agosáu at etholiad cyffredinol nesaf y DU, mae angen i ni glywed ar frys sut y bydd pleidiau yn adeiladu dyfodol lle na fydd angen banc bwyd ar unrhyw un i oroesi. Mae'n hanfodol bod ein system nawdd cymdeithasol, nad yw'n darparu digon o gymorth i bobl fforddio'r hanfodion hyd yn oed ar hyn o bryd, yn cael ei diwygio ar frys. Byddai cyflwyno 'Gwarant Hanfodion' ar gyfer Credyd Cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn cael isafswm cymorth wedi'i ddiogelu i allu fforddio'r hanfodion.**

Bydd angen ymdrech ar draws pob lefel o lywodraeth a chymdeithas ledled y DU er mwyn adeiladu dyfodol heb yr angen am fanciau bwyd. Mae angen camau trawslywodraethol a phartneriaeth newydd rhwng pob lefel o'r llywodraeth, yn ogystal â phartneriaethau rhwng cymdeithas sifil, busnesau, cyflogwyr, a chymunedau. Wrth i ni baratoi ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol, mae gan Lywodraeth y DU lawer o'r pwerau pwysicaf i droi'r llanw o ran y caledi sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei chyfrifoldebau, gan y bydd hyn yn caniatáu i rannau eraill o gymdeithas chwarae eu rhan nhw.



# EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER LLYWODRAETH NESAF Y DU

**Er mwyn adeiladu dyfodol heb yr angen am fanciau bwyd, mae angen sefydlu Gwarant Hanfodion yn y system nawdd cymdeithasol, a fydd yn sicrhau bod incwm pobl yn gallu talu am gostau byw ac yn cefnogi lles pawb sydd angen help ganddi. Gallwn ni wneud hyn drwy:**

**1**

sefydlu Gwarant Hanfodion, sef isafswm cyfreithiol o ran Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn ymgorffori mewn deddfwriaeth yr egwyddor y dylai Credyd Cynhwysol o leiaf ddiogelu pobl rhag mynd heb hanfodion, fel bwyd a biliau. Dylai hyn fod yn seiliedig ar broses annibynnol i bennu lefel y Warant Hanfodion yn rheolaidd, yn seiliedig ar gost hanfodion. Mae cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, gyda 72% o'r cyhoedd o blaid y cynnig.[3]

**2**

cymryd camau cyflym i leihau'n ddramatig y swm y gall Llywodraeth y DU ei adfachu o daliadau Credyd Cynhwysol pobl drwy ddidyniadau. Dylid dechrau cyflwyno Gwarant Hanfodion drwy gyflwyno lleiafswm wedi'i ddiogelu yn y system ar lefel ddechreuol a fyddai'n cyfyngu ar faint y gellir lleihau lwfans safonol Credyd Cynhwysol o'r 25% ar hyn o bryd i 15%. Ynghyd â hyn, dylid capio ad-daliadau dyledion i lywodraeth ganolog ar uchafswm o 5%.

**Dylai pawb fod yn gallu cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, yn enwedig pan fydd pethau'n anodd, drwy:**

**3**

dull hirdymor, arian parod yn gyntaf o fynd i'r afael â chymorth brys lleol, i helpu cynghorau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd i ddarparu cymorth lleol cydgysylltiedig sydd wedi'i dargedu at bobl nad oes ganddyn nhw'r arian wrth gefn i reoli costau annisgwyl. Dylai arian aml-flwyddyn o leiaf gyfateb i lefel y buddsoddiad yn y Gronfa Gymorth i Aelwydydd.

**4**

strategaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer y DU sy'n blaenoriaethu pobl sy'n wynebu amddifadrwydd, drwy sicrhau bod pobl ar incwm isel yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o ran materion ariannol, gan gynnwys cymhwysedd ar gyfer nawdd cymdeithasol a dyled.

**Rhaid i bobl gael eu cefnogi mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu bywydau go iawn, yn enwedig os ydynt yn wynebu costau uwch a rhwystrau a all effeithio – er enghraifft – ar rieni, gofalwyr a phobl anabl, drwy:**

**5**

gwneud penderfyniadau cyflym a chywir ynghylch cymorth nawdd cymdeithasol i bobl anabl ar gyfer pob ymgeisydd, drwy sicrhau bod mwy o gapasiti gweithredol ac arbenigedd i gynnal asesiadau cywir a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**6**

cynnig cymorth cyflogaeth newydd, wedi'i ategu gan ddull newydd o ymgysylltu sy'n seiliedig ar gryfderau a gefnogir gan arian hirdymor i ehangu cymorth cyflogaeth arbenigol, gwirfoddol, a fframwaith newydd ar gyfer canlyniadau'r Ganolfan Byd Gwaith sy'n cymell cymorth wedi'i deilwra a gweithgarwch paru swyddi effeithiol, yn hytrach nag ymarferion ticio blychau.

**7**

dileu'r capiau a'r terfynau sydd wedi lleihau gwerth cymorth nawdd cymdeithasol plant, by drwy gyflwyno lleiafswm wedi'i ddiogelu yn y system ar lefel ddechreuol a fyddai'n lliniaru effaith y cap ar fudd-daliadau, a thrwy gael gwared ar y terfyn o ddau blentyn – gan helpu i sicrhau bod pob aelod o'r teulu yn cael ei ddiogelu rhag mynd heb hanfodion.

**Dylai fod gan bawb y sicrwydd sydd ei angen ar bob un ohonom i fanteisio ar gyfleoedd ac i fod yn obeithiol ar gyfer y dyfodol, drwy:**

**8**

deddfwriaeth newydd ar hawliau gweithwyr i sicrhau hawliau newydd i ddiogelwch swyddi, gorfodi hawliau presennol yn effeithiol, oriau gwaith rhagweladwy, a threfniadau gweithio hyblyg o'r diwrnod cyntaf.

**9**

adeiladu 90,000 o gartrefi cymdeithasol newydd bob blwyddyn yn Lloegr, i ddarparu'r urddas o fod â lle diogel a fforddiadwy i fyw.

**10**

grymuso cymunedaudrwy ddylunio lleoedd, gofodau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n creu cysylltiad – a defnyddio arbenigedd pobl i wneud hynny. Dylai hyn gynnwys hawl newydd i'r gymuned lywio gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith cymdeithasol, ac adnoddau i sicrhau bod pobl ar yr incwm isaf yn gallu cymryd rhan.

# BETH YW'R BROBLEM?

## **Rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y bobl sydd angen banciau bwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf,** ond roedd niferoedd cynyddol o bobl ar yr incwm isaf yn wynebu caledi ymhell cyn i Covid-19 a'r argyfwng costau byw daro.

**Mae nifer y parseli sy'n cael eu dosbarthu gan fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell wedi bron â dyblu rhwng 2018/19 a 2023/24 (cynnydd o 94%).[4]** Rydym yn gwybod bod hyn yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu gwthio i'r math dyfnaf, mwyaf difrifol o dlodi. Gwnaeth 3.8 miliwn o bobl brofi amddifadrwydd yn 2022, bron dwywaith a hanner yn fwy nag yn 2017. [5]

Mae'r cyhoedd yn y DU yn glir nad yw hyn yn dderbyniol, gyda **79% yn cytuno bod tlodi yn y DU yn broblem fawr iawn neu'n broblem gymharol fawr yn 2023.[6]**

**Y tu ôl i'r ystadegau mae'r bobl sy'n cael eu gorfodi i fynd heb bethau:**

- Mae rhai pobl yn chwilio am waith, yn byw gyda chyflyrau iechyd neu'n gofalu am berthnasau a phlant.
- Mae pobl eraill mewn gwaith ansicr neu waith nad yw'n talu digon iddyn nhw fyw arno.
- Mae rhwystrau fel diffyg gofal plant fforddiadwy, trafnidiaeth, a swyddi hyblyg, hygyrch yn golygu bod gormod o bobl yn methu manteisio ar gyfleoedd i gynyddu eu hincwm.
- Mae costau tai uchel, yn enwedig i'r rhai sy'n rhentu, yn gadael pobl heb ddigon o arian ar gyfer pethau eraill – tra bod ansicrwydd ar gyfer y rhai sy'n rhentu'n breifat yn eu rhoi mewn perygl o gael eu troi allan a bod yn ddigartref.

**Mae ein system nawdd cymdeithasol i fod yno i ni pan fydd pethau'n anodd ond, ar hyn o bryd, mae'n methu â chyflawni ei dyletswydd fwyaf sylfaenol: i ddiogelu pobl rhag mynd heb hanfodion.** Mae'n annerbyniol bod pedwar o bob deg teulu a oedd yn cael Credyd Cynhwysol y llynedd yn wynebu newyn, ac mae un o bob pump wedi cael eu gorfodi i ddefnyddio banc bwyd.[7] Mae'n un o fethiannau ein cymdeithas bod unrhyw un yn cael ei orfodi i ddefnyddio banc bwyd am nad yw'n gallu fforddio hanfodion fel bwyd, dillad neu wres.

Gall hyn i gyd newid. Oherwydd rydym yn gwybod beth sy'n gwthio pobl i ddefnyddio banciau bwyd, ac rydym yn gwybod y blociau adeiladu sydd eu hangen i roi diwedd ar newyn am byth. **Mae'r cyhoedd yn cefnogi'r genhadaeth hon, gyda mwy na thri chwarter yn cytuno na ddylai fod angen banciau bwyd yn y DU,** a 63% yn dweud nad ydyn nhw o'r farn mai banciau bwyd yw'r ateb i newyn yn y DU. Mae pobl yn glir mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw cadw pobl allan o dlodi.[8]

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu'r camau gweithredu yr ydym yn annog pob plaid wleidyddol i'w cefnogi, a'n blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth newydd y DU – fel y gallan nhw ein harwain at ddyfodol mwy gobeithiol heb yr angen am fanciau bwyd, lle rydym yn sicrhau diogelwch a chyfle i bawb.

**79%**

**yn cytuno bod tlodi yn y DU yn broblem fawr iawn neu'n broblem gymharol fawr yn 2023.**

> *"Fe es i i'r banc bwyd ar ôl i fi fethu â thalu unrhyw beth heblaw am fy rhent a'm ffôn symudol tra ro'n i'n cael Credyd Cynhwysol.*
>
> ***Sut, yn un o'r gwledydd cyfoethocaf yn y byd, y mae pobl yn ciwio am fwyd – un o hanfodion bywyd?** Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae pobl yn dal i fynd heb fwyd yn y DU. Mae'n eich gadael heb unrhyw hunan-barch na hyder"*
>
> **- Sharron**

**94%**

**o gynnydd mewn parseli bwyd brys a ddosbarthwyd gan fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriediolaeth Trussell rhwng 2018/19 a 2023/24**

# BETH YW'R BLOCIAU ADEILADU AR GYFER RHOI DIWEDD AR YR ANGEN AM FANCIAU BWYD?

Ymrwymo i **adeiladu dyfodol lle nad oes angen banc bwyd ar unrhyw un**, oherwydd bod gennym ni system nawdd cymdeithasol gefnogol ac mae **gweithredu trawslywodraethol** yn sicrhau bod gan bawb digon ar gyfer yr hanfodion.

Mae risg y bydd y cynnydd yn yr angen am fanciau bwyd yn creu 'normal newydd'. Gallwn ni ddim gadael i hyn ddigwydd. Ni ddylai byth fod yn dderbyniol bod miliynau o bobl yn cael eu gwthio drwy ddrysau banciau bwyd. [9] **Os byddwn ni'n parhau i droedio'r llwybr hwn, byddwn ni'n dod yn gymdeithas salach, llai cynhyrchiol a llai teg. Ond does dim angen iddo fod fel hyn.**

Rydym yn gwybod bod gan Lywodraeth y DU bŵer aruthrol i arwain ymdrech ledled y DU i fynd i'r afael â'r caledi annerbyniol sy'n wynebu nifer ohonom.

**Dyna pam:**

- Mae angen i arweinwyr pleidiau ymrwymo i adeiladu dyfodol lle nad oes angen banc bwyd ar unrhyw un. Dylai'r weledigaeth hon gael ei chyflawni drwy Warant Hanfodion o fewn system nawdd cymdeithasol gefnogol, ynghyd â gweithredu trawslywodraethol i sicrhau bod gan bawb ddigon ar gyfer yr hanfodion. Bydd arweinyddiaeth ar y lefel uchaf yn sicrhau atebolrwydd, ewyllys gwleidyddol, a blaenoriaethu ar draws holl adrannau'r llywodraeth.

> ***"Gallwch chi ddim cyllidebu pan nad oes gennych chi ddigon o arian.*** *Mae angen i'r llywodraeth roi ei hunain yn ein hesgidiau ni a cheisio goroesi ar £80 yr wythnos. Bydden nhw'n deall wedyn nad yw hynny'n ddigon o arian.* ***Mae angen iddyn nhw wrando arnon ni, mae angen i rywbeth newid"***
>
> **– Mandy**



# BETH YW'R BLOCIAU ADEILADU AR GYFER RHOI DIWEDD AR YR ANGEN AM FANCIAU BWYD?


## Cynnwys Gwarant Hanfodion yn y system nawdd cymdeithasol – **a all sicrhau bod incwm pobl yn cwmpasu costau hanfodion,** a chefnogi lles a photensial pawb sydd angen cymorth ar yr un pryd.

**Dydy hi ddim yn iawn nad yw ein system nawdd cymdeithasol yn rhoi digon o incwm i bobl ar hyn o bryd i fforddio'r hanfodion.** Dylai nawdd cymdeithasol ddiogelu pob un ohonom rhag yr angen i ddefnyddio banc bwyd. Hyd yn oed cyn yr argyfwng costau byw, roedd cyfraddau annigonol o nawdd cymdeithasol yn golygu bod nifer sylweddol o bobl yn mynd heb yr hanfodion fel gwres neu fwyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl (89%) sy'n cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yn cael incwm nawdd cymdeithasol, sy'n cynnwys aelwydydd sy'n gweithio, pobl sy'n chwilio am waith, a phobl na allant weithio oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu.[10] Creu system nawdd cymdeithasol gefnogol sy'n diogelu pobl rhag caledi difrifol yw'r sylfaen ar gyfer rhoi'r diogelwch sydd ei angen ar bobl i reoli cyfrifoldebau gofalu, gwella eu hiechyd, a chyfrannu at gymdeithas.

Dylai cyfradd sylfaenol Credyd Cynhwysol gwmpasu cost hanfodion fel bwyd, biliau'r aelwyd a chostau teithio o leiaf ond, ar hyn o bryd, nid yw'n cael ei phennu yn ôl unrhyw asesiad gwrthrychol o'r hyn sydd ei angen ar bobl. Ar hyn o bryd, dim ond £91 yr wythnos yw'r gyfradd sylfaenol hon ar gyfer oedolyn sengl dros 25 oed.

**Lwfans safonol Credyd Cynhwysol o'i gymharu â chost hafodion (£ yr wythnos yn 2024/25)**




*"Rwy'n fam ifanc â mab 16 oed a galla' i ddim byw heb weithio. Ond ar hyn o bryd, rwy'n cael fy rhwystro rhag dychwelyd i'r gwaith oherwydd yr holl broblemau y mae Credyd Cynhwysol wedi'u creu.* ***Dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddidynnu arian o'm taliadau Credyd Cynhwysol oherwydd eu bod nhw wedi fy ngordalu****[...] Roedden nhw'n gofyn i fi drwy'r amser i ddarparu'r wybodaeth gywir, er fy mod i wedi'i darparu'n flaenorol ac roeddwn i'n gwybod ei bod yn y system[...] Fis diwethaf, dim ond hanner y taliad Credyd Cynhwysol y dylwn i fod wedi'i gael y gwnes i ei gael. Mae arna' i £2,000 i'r banc. Roedd gen i arian wedi'i gynilo yn fy nghyfrif ISA cyn hyn, ac rwyf wedi gorfod gwario'r cyfan dim ond i fyw."*

**– Margaret.**

Yn ymarferol, mae incymau hyd yn oed yn is na hyn, oherwydd symiau a ddidynnir o daliadau nawdd cymdeithasol. Yn aml, caiff symiau eu didynnu i ad-dalu dyledion i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn sgil y cyfnod o bum wythnos lle y bu'n rhaid aros am Gredyd Cynhwysol, neu oherwydd gordaliadau a wnaed yn sgil gwall gweinyddol. Mae didyniadau yn effeithio ar bron hanner yr holl bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell a gallant leihau incwm i swm cwbl annerbyniol o lai na £70 yr wythnos.[11] **Mae hynny'n golygu bod diffyg sylweddol rhwng costau byw pobl a'u hincwm, sy'n gorfodi llawer i fynd heb brydau bwyd, diffodd offer hanfodol fel oergelloedd, ac eistedd mewn cartrefi oer, tywyll. fridges, and sit in cold, dark homes.**

**Dyna pam mae angen:**

## 1

**sefydlu 'Gwarant Hanfodion', sef isafswm cyfreithiol o ran Credyd Cynhwysol.** Mae angen i ni ymgorffori'r egwyddor y dylai Credyd Cynhwysol o leiaf ddiogelu pobl rhag mynd heb hanfodion, fel bwyd a biliau. Dylai hyn fod yn seiliedig ar broses annibynnol i bennu lefel y Warant Hanfodion yn rheolaidd, yn seiliedig ar gost hanfodion, gan sicrhau bod lwfans safonol Credyd Cynhwysol yn cyrraedd y lefel hon o leiaf, ac nad yw didyniadau o daliadau pobl byth yn tynnu'r cymorth islaw'r lefel hon. Mae yna gefnogaeth eang i hyn ymhlith y cyhoedd, gyda 72% o'r cyhoedd o blaid y cynnig.[12]

## 2

**cymryd camau cyflym i leihau'r swm y gall Llywodraeth y DU ei adfachu o daliadau Credyd Cynhwysol pobl i ad-dalu dyledion.** Dylai cyflwyno Gwarant Hanfodion ddechrau drwy gyfyngu ar faint y gellir lleihau lwfans safonol Credyd Cynhwysol. Ar hyn o bryd, gall symiau a ddidynnir i dalu dyledion arwain at ostyngiad o hyd at 25% yn y lwfans safonol. Byddai creu isafswm a ddiogelir er mwyn sicrhau nad oes modd lleihau'r lwfans safonol llai na 15%, a newid y rheolau fel bod ad-daliadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cael eu capio ar uchafswm o 5%, yn diogelu incymau sydd eisoes yn isel iawn. Mae angen i ni atal y math hwn o ddyled yn y lle cyntaf hefyd, drwy ddarparu grantiau ymlaen llaw yn ystod y cyfnod o bum wythnos pan mae'n rhaid aros am y taliad cyntaf o Gredyd Cynhwysol. Dylid defnyddio asesiadau fforddiadwyedd trawslywodraethol i gymryd un safbwynt ar ddyled sy'n sicrhau nad yw ad-daliadau byth yn gadael rhywun heb ddigon i dalu am yr hanfodion.



# BETH YW'R BLOCIAU ADEILADU AR GYFER RHOI DIWEDD AR YR ANGEN AM FANCIAU BWYD?

## Gall pawb gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, yn enwedig pan fydd pethau'n anodd.

Pan nad yw pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, mae eu hiechyd, eu gwaith a'u perthnasoedd yn dioddef. **Gall pob un ohonom ni wynebu digwyddiadau annisgwyl ac argyfyngau, ond mae'n llawer anoddach i bobl heb gynilion neu arian wrth gefn ymdopi â nhw.** Rydym yn gwybod hefyd fod pobl sy'n cael eu hatgyfeirio at ein banciau bwyd yn fwy tebygol o fod wedi manteisio i'r eithaf ar rwydweithiau cymorth fel teulu a ffrindiau, os oes rhwydweithiau cymorth ganddyn nhw i droi atyn nhw o gwbl.

Rydym yn gwybod bod cymorth brys lleol – a elwir weithiau'n gymorth lles lleol – yn gallu chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu taliadau arian parod brys a chyngor ariannol – i atal sioc fyrdymor rhag troi'n galedi hirdymor. Ond mae pwysau ariannol acíwt ar awdurdodau lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cyngor ariannol a chyngor ar nawdd cymdeithasol, wedi gwthio'r math hwn o gymorth y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl. Er enghraifft, **ni chafodd 36% o bobl a atgyfeiriwyd i fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell unrhyw gyngor cyn iddyn nhw gael eu hatgyfeirio ddiwethaf.**[13] Er bod y Gronfa Gymorth i Aelwydydd wedi darparu rhywfaint o seibiant, mae diffyg strategaeth hirdymor ac arian ar gyfer cymorth brys lleol yn Lloegr yn creu darlun tameidiog a dryslyd lle nad yw gwasanaethau yn cyrraedd pawb sydd eu hangen. [14]

**Dyna pam, ochr yn ochr â rhoi arian awdurdodau lleol yn ôl ar seiliau sefydlog a chynaliadwy, mae angen:**

### 3

**dull hirdymor, arian parod yn gyntaf o fynd i'r afael â chymorth brys lleol, gan gynnwys arian aml-flwyddyn.** Dylai pawb sy'n wynebu cost annisgwyl sydyn neu sioc i'w hincwm, sy'n eu rhoi mewn perygl o brofi caledi ariannol, fod yn gallu derbyn cymorth brys 'arian parod yn gyntaf' yn gyflym (e.e. grantiau arian parod brys) ochr yn ochr â chymorth a chyngor ataliol. Mae hyn yn golygu strategaeth hirdymor i adeiladu system integredig, effeithiol a mwy urddasol o ddarparu cymorth brys lleol yn Lloegr. Dylai hyn gael ei ategu gan setliad ariannol aml-flwyddyn sydd o leiaf yn gyson â'r buddsoddiad blynyddol o £1bn drwy'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd. Yn yr un modd â'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd, dylai'r setliad ariannol ddarparu arian ychwanegol i atgyfnerthu cynlluniau cymorth brys dewisol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### 4

**strategaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer y DU sy'n blaenoriaethu pobl sy'n wynebu amddifadrwydd,** drwy sicrhau bod pobl ar incwm isel yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o ran materion ariannol, gan gynnwys cymhwysedd ar gyfer nawdd cymdeithasol a dyled, ac yn gallu defnyddio cynhyrchion credyd fforddiadwy a chynhyrchion ariannol eraill i'w hatal rhag wynebu caledi. Mae hyn yn golygu cefnogi llywodraeth leol i ariannu a darparu gwasanaethau ariannol, dyled a gwasanaethau cyngor eraill, gan helpu pobl i gael gafael ar y cymorth y mae ganddyn nhw'r hawl i'w cael ond y maen nhw'n colli allan arno. Mae'n rhaid i wasanaethau fynd i'r afael â'r cysylltiadau rhwng arian a phroblemau iechyd meddwl, cael eu hintegreiddio â chymorth brys lleol, gan gynnwys grantiau arian parod brys, a blaenoriaethu pobl sy'n mynd heb hanfodion, neu sy'n wynebu'r risg y bydd hynny'n digwydd. Mae hefyd yn golygu gweithio gyda llywodraethau ledled y DU, i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar gredyd fforddiadwy ac i leihau'r premiwm tlodi sy'n golygu bod pobl ar incwm isel yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau hanfodol.

> *"Fe wnaeth y banc bwyd fy nghyflwyno i i Alanna o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Roedd hi'n wych ei bod hi yno. Fe wnaeth hi fy helpu i gael gostyngiad ar fy nhreth gyngor, fe wnaeth hi fy helpu gyda fy miliau dŵr, ac yna gyda Chredyd Cynhwysol. Mae'n fwy na dim ond rhoi bwyd yng nghegau pobl. Does dim ymwybyddiaeth – dyw pobl ddim yn ymwybodol o'r cymorth y gallan nhw ei gael. Dylai'r Llywodraeth fod yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r hyn y gallan nhw ei gael, a rhoi hynny iddyn nhw."*

**– John**



# BETH YW'R BLOCIAU ADEILADU AR GYFER RHOI DIWEDD AR YR ANGEN AM FANCIAU BWYD?

## **Mae pobl yn cael eu cefnogi mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu bywydau go iawn**, yn enwedig os ydynt yn wynebu costau uwch a rhwystrau fel rhieni, gofalwyr neu bobl anabl.

Mae rhieni, gofalwyr a phobl anabl yn enwedig yn wynebu'r risg o gael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd. **Gwnaeth tua miliwn o blant brofi amddifadrwydd yn 2022; mae hyn wedi treblu bron ers 2017** – mae'n llawer uwch na'r cynnydd cyffredinol mewn amddifadrwydd. **Mae'r rhan fwyaf (69%) o'r bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yn anabl.**[15]

**Yn aml, y costau uwch a wynebir gan y grwpiau hyn sy'n gyfrifol am y lefelau anghymesur o galedi maent yn eu profi.**[16] Nid yw llawer ohonynt yn gallu fforddio'r costau uwch hyn drwy waith oherwydd y rhwystrau cynyddol y maent yn eu hwynebu – yn ôl y rhan fwyaf (74%) o bobl anabl a atgyfeiriwyd at un o'r banciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell sy'n ddi-waith, mae eu cyflwr iechyd neu eu cyfrifoldebau gofalu yn golygu na allant weithio.[17] Mae'r system nawdd cymdeithasol yn methu â diogelu'r grwpiau hyn rhag caledi hefyd, oherwydd gwerth isel taliadau, asesiadau gwallus, a chyfnodau aros hir. Mae capiau mympwyol, fel y terfyn o ddau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau, yn gyfrifol am yrru llawer o deuluoedd mwy o faint yn ddyfnach i dlodi.

Rydym yn gwybod bod rhai pobl yn gallu gweithio ac eisiau gweithio, ond mae angen yr amgylchiadau cywir arnynt i wneud hynny, a gallan nhw ddim dod o hyd i swyddi hyblyg na'r cymorth cyflogaeth ac iechyd meddwl wedi'i bersonoli sydd eu hangen arnynt.[18] Gall cymorth cyflogaeth wedi'i bersonoli a'i deilwra chwarae rhan hollbwysig wrth fynd i'r afael â rhwystrau i waith – ond mae swm cyfyngedig o arian, darpariaeth dameidiog, a diffyg cynllunio hirdymor yn tanseilio'r ymdrechion hyn.

**Pan nad yw pobl yn gallu gweithio, neu pan maent yn cael eu hatal rhag gweithio, dydy hi ddim yn iawn eu bod yn cael eu gorfodi i fynd heb yr hanfodion, a all waethygu eu hiechyd a'i gwneud hyd yn oed yn llai tebygol y gallan nhw ddod o hyd i waith priodol.** Mae hyn yn creu pwysau anghynaliadwy ar ofalwyr di-dâl, pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, ac aelwydydd â phlant – yn enwedig rhieni sengl. Mae'r ffaith bod pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi, heb sôn am ffynnu, yn cael canlyniadau hirdymor, gan wthio pobl yn ddyfnach i dlodi a niweidio eu hiechyd a'u lles ymhellach. Mae'n bryd cael dull newydd o weithredu **Gallwn ni wneud hyn drwy:**

## 5

**gwneud penderfyniadau cyflym a chywir ar daliadau anabledd ar gyfer pob ymgeisydd,** fel pobl sy'n gwneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), i ddiogelu incwm pobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i waith a chydnabod y costau ychwanegol y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Dylai hyn gael ei gyflawni drwy sicrhau bod mwy o gapasiti gweithredol ac aseswyr sydd â'r arbenigedd iechyd perthnasol i gynnal asesiadau cywir a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



## 6

**cynnig cymorth cyflogaeth newydd, wedi'i ategu gan ddull newydd o ymgysylltu sy'n seiliedig ar gryfderau.** Gan adeiladu ar arferion da a chynlluniau peilot presennol, mae angen i ni weld ehangu cyflym o ran cymorth cyflogaeth gwirfoddol, arbenigol, wedi'i integreiddio â darpariaeth iechyd meddwl. Rydym yn gwybod nad yw dibynnu ar y model presennol generig, cyfaint uchel a gorfodol o chwilio am waith – sy'n dibynnu ar y bygythiad o sancsiynau i ysgogi ymgysylltiad – yn effeithiol ar gyfer pobl anabl a phobl eraill sy'n wynebu rhwystrau mawr i fanteisio ar gymorth ac i weithio. Gall gwelliannau gael eu darparu drwy ariannu cymorth cyflogaeth arbenigol yn yr hirdymor, cynyddu capasiti hyfforddwyr gwaith, a fframwaith newydd ar gyfer canlyniadau'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth – cymorth cymhellol wedi'i deilwra a gweithgarwch paru swyddi effeithiol ar gyfer grwpiau sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i weithio.

## 7

**cael gwared ar y capiau a'r terfynau sydd wedi lleihau gwerth cymorth nawdd cymdeithasol plant, drwy gyflwyno lleiafswm wedi'i ddiogelu yn y system ar lefel ddechreuol a fyddai'n lliniaru'r cap ar fudd-daliadau, a thrwy gael gwared ar y terfyn o ddau blentyn.** Mae hyn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r orgynrychiolaeth sylweddol o deuluoedd sy'n cael eu gorfodi i droi at fanciau bwyd, ac mae'n rhan allweddol o gyflwyno Gwarant Hanfodion ar gyfer Credyd Cynhwysol. Dylai nawdd cymdeithasol plant fod yn darparu'r diogelwch hwn, ond mae atal rhieni rhag hawlio Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer unrhyw drydydd plentyn neu blentyn dilynol yn gwthio teuluoedd yn ddyfnach i dlodi. Byddai dileu'r terfyn o ddau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau yn helpu i fynd i'r afael â'r ffaith bod un o bob 10 o'r aelwydydd sy'n cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd yn byw gyda thri phlentyn neu fwy – er gwaethaf y ffaith bod y grŵp hwn yn cyfrif am ddim ond 4% o boblogaeth y DU.



*"Os ydych chi'n cael taliadau nawdd cymdeithasol ar gyfer anabledd neu gyflwr iechyd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn trefnu i chi gael eich asesu bob ychydig flynyddoedd ac yn penderfynu a ydych chi'n dal i fod yn 'ddigon anabl' i gael cymorth. Gan fod fy nhad yn gymwys i gael dau fath gwahanol o gymorth anabledd, roedd angen iddo gael dau asesiad gwahanol. Roedd y ddau asesiad drawmatig i ni ac, er gwaethaf yr holl dystiolaeth i'r gwrthwyneb, nodwyd bod fy nhad yn 'ffit i weithio'. Oherwydd y ddau asesiad anghywir, doedd gan fy nhad a minnau ddim incwm, doeddwn ni ddim yn gallu talu ein rhent, doeddwn ni ddim yn gallu fforddio ein meddyginiaethau. Fe gymerodd hi flwyddyn i apelio yn erbyn yr asesiadau anghywir"*

**– Siobhan**



# BETH YW'R BLOCIAU ADEILADU AR GYFER RHOI DIWEDD AR YR ANGEN AM FANCIAU BWYD?

## Mae gan bawb y sicrwydd sydd ei angen ar bob un ohonom i fanteisio ar gyfleoedd ac i fod yn obeithiol ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn atal pobl rhag byth gorfod troi at fanc bwyd, mae angen rhoi sicrwydd i bobl ym mhob rhan o'u bywyd, gan gynnwys sicrwydd ariannol, sicrwydd o ran tai a sicrwydd o ran swyddi. Ond, ar hyn o bryd, mae gwaith ansicr, rhan-amser a chyflog isel ynghyd â thai anniogel ac anfforddiadwy yn creu amodau ar gyfer ansicrwydd ac ofn, nid sicrwydd a gobaith.

**Er bod gwaith â thâl yn gallu cynnig llwybr hanfodol allan o dlodi, yn rhy aml nid yw'n diogelu pobl rhag gorfod defnyddio banciau bwyd.** Mae ychydig o dan draean (30%) o bobl mewn gwaith â thâl sy'n cael eu hatgyfeirio at ein banciau bwyd mewn gwaith ansicr – er enghraifft, contractau dim oriau neu waith asiantaeth. Rydym hefyd yn gwybod bod pobl sy'n gweithio'n rhan-amser yn fwy tebygol o wynebu newyn, gyda 21% o bobl sy'n gweithio'n rhan-amser yn profi ansicrwydd bwyd o gymharu ag 13% o'r rhai sy'n gweithio'n llawnamser.[19]

Ar yr un pryd, oherwydd diffyg cronig o dai cymdeithasol, nid yw tenantiaeth rhent cymdeithasol fforddiadwy yn opsiwn i lawer iawn o bobl, sy'n aml yn gorfod dibynnu ar y sector rhentu preifat i ddod o hyd i lety. Mae rhenti anfforddiadwy a thenantiaeth ansicr yn nodweddion cyffredin rhentu preifat, sy'n gorfodi pobl i gwtogi ar hanfodion – a wynebu cael eu troi allan ar fyr rybudd. **Roedd un o bob tri o bobl (34%) a atgyfeiriwyd at fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell naill ai'n ddigartref ar yr adeg y cawsant eu hatgyfeirio neu wedi bod yn ddigartref yn ystod y 12 mis blaenorol.** [20]

**Dyna pam mae angen:**

### 8

**deddfwriaeth newydd ar hawliau gweithwyr i sicrhau hawliau i ddiogelwch swyddi, oriau gwaith rhagweladwy, a threfniadau gweithio hyblyg o'r diwrnod cyntaf.** Dylai deddfwriaeth newydd sicrhau bod yr hawl i weithio'n hyblyg ar gael o'r diwrnod cyntaf yn y swydd – bydd hyn o fudd i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu, dibynyddion, a phobl anabl yn arbennig. Mae angen hawliau newydd i gael contract diogel sy'n adlewyrchu oriau gwaith rhywun yn gywir ar ôl iddo fod yn gweithio am 26 wythnos, i roi diwedd ar bobl yn cael eu cloi mewn gwaith ansicr. Dylai'r hawliau hyn gael eu gwarantu gan un corff gorfodi newydd sydd â phwerau i orfodi hawliau fel isafswm cyflog, tâl salwch, a thâl gwyliau, a mynd i'r afael â chamfanteisio a chaethwasiaeth fodern ar yr un pryd.

### 9

**buddsoddi i adeiladu o leiaf 90,000 o gartrefi cymdeithasol newydd bob blwyddyn yn Lloegr, i ddarparu'r urddas o fod â lle diogel a fforddiadwy i fyw.** Rhaid i fuddsoddiad i fynd i'r afael â'r argyfwng tai gael ei gyfeirio at ddarparu cartrefi cymdeithasol newydd i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o ddigartrefedd, ansicrwydd ac anfforddiadwyedd a ysgogir gan orddibyniaeth ar y sector rhentu preifat. [21]

### 10

**grymuso cymunedau drwy ddylunio lleoedd, gofodau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n creu cysylltiad, gan ddefnyddio arbenigedd pobl i wneud hynny.** Mae rhoi perthnasoedd wrth wraidd yr ymateb i galedi yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol, digidol a chorfforol. Dylai ymdrechion gynnwys hawl newydd i'r gymuned lywio gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith cymdeithasol, gydag adnoddau a chapasiti priodol i alluogi pobl sydd â'r incwm isaf i gymryd rhan.

> ***"Rwy'n rhiant sengl, rwy'n rhentu'n breifat ac rwy'n ei chael hi'n anodd goroesi.*** *Rwyf wedi gweithio ers i mi fod yn 16 oed. Dydyn ni ddim yn gymwys i gael trafnidiaeth na phrydau ysgol am ddim, oherwydd rwy'n gweithio. £80 y mis yw fy nghyllideb ar gyfer bwyd ar hyn o bryd.* ***Rwy'n ceisio byw mor gynnil â phosibl ym mhob ffordd y gallaf, ond dydy e ddim yn ddigon"***
>
> **– Charlene**



# CASGLIAD

Mae'r Etholiad Cyffredinol hwn yn cael ei gynnal ar adeg pan rydym ni, **fel cenhedlaeth, yn wynebu her newyn yn y DU.** Rydym yn gweld mwy o galedi nag erioed o'r blaen, **ac mae risg y bydd banciau bwyd yn dod yn 'normal newydd'** mewn cymunedau ar hyd a lled y DU. Mae hyn yn niweidio ein hiechyd, yn **niweidio rhagolygon pobl ifanc, ac yn rhwystro ein heconomi.**

Ond does dim angen iddo fod fel hyn. Mae etholiadau'n ymwneud â dewisiadau, a gyda'n gilydd gallwn ni ddewis blaenoriaethu troi'r llanw ar yr angen cynyddol am fanciau bwyd.

**Mae barn y cyhoedd yn glir: mae lefel a dyfnder tlodi heddiw yn annerbyniol, a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gweithredu.**

Bydd y llywodraeth newydd yn cael ei barnu ar p'un a fydd yn ymateb i'r her hon.

Dyna pam ein bod yn galw ar arweinwyr pob plaid i ymrwymo i adeiladu dyfodol lle nad oes angen banc bwyd ar unrhyw un, oherwydd bod gennym ni system nawdd cymdeithasol sy'n addas at y diben, ac mae gweithredu trawslywodraethol yn sicrhau bod gan bawb ddigon ar gyfer yr hanfodion.

Bydd angen ymdrech ar bob lefel o lywodraeth a chymdeithas ar draws y DU er mwyn cyflawni'r nod hwn. Dylai camau gweithredu Llywodraeth y DU gael eu cymryd ochr yn ochr â chamau gweithredu brys gan llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chan awdurdodau lleol, cyflogwyr, elusennau a sefydliadau cymunedol.

**Oherwydd rydym yn gwybod beth sy'n gwthio pobl i ddefnyddio banciau bwyd, rydym yn gwybod y blociau adeiladu sydd eu hangen i roi diwedd ar newyn am byth.** Bydd rhoi'r blociau adeiladu hyn ar waith yn ein harwain at ddyfodol mwy gobeithiol lle y bydd gan bawb y sicrwydd o allu fforddio'r hanfodion, **a lle y bydd banciau bwyd yn rhywbeth ar gyfer y llyfrau hanes yn unig.**

## Dysgwch fwy:

Rydym yn gwybod beth sy'n gwthio pobl i ddefnyddio banciau bwyd, felly rydym yn gwybod y blociau adeiladu sydd eu hangen i roi diwedd ar newyn am byth.

Mae rhagor o fanylion ar y meysydd polisi a'r argymhellion yn y manifesto hwn ar ein gwefan: trusselltrust.org/building-blocks.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **public.affairs@trusselltrust.org.**

# CYFEIRIADAU

[1] Ymddiriedolaeth Trussell (Mai 2024), End of Year stats 2023-24.

[2] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Trussell Trust Public Attitudes Survey a gynhaliwyd gan YouGov. Sylfaen: 5,393 o oedolion cynrychioliadol cenedlaethol yn y DU. 5-19 Gorffennaf 2023 – 79% o'r cyhoedd yn y DU yn cytuno bod tlodi yn y DU yn broblem fawr iawn neu'n broblem gymharol fawr.

[3] Ymddiriedolaeth Trussell; JRF (2024) Guarantee our Essentials: Reforming Universal Credit to ensure we can all afford the essentials in hard times https://www.jrf.org.uk/social-security/guarantee-our-essentials-reforming-universal-credit-to-ensure-we-can-all-afford-the

[4] Gweler ôl-nodyn 1

[5] Mae amddifadrwydd yn golygu methu â fforddio o leiaf ddau o'r hanfodion sydd eu hangen arnom i fyw, fel lloches, bwyd, gwres a golau. S. Fitzpatrick; G Bramley, M. Treanor; J. Blenkinsopp; J. McIntyre; S Johnsen; L. McMordie, JRF (2023) Destitution in the UK 2023 https://www.jrf.org.uk/deep-poverty-and-destitution/destitution-in-the-uk-2023

[6] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Trussell Trust Public Attitudes Survey – gweler ôl-nodyn 2.

[7] Gov.uk (2023) Family Resources Survey: financial year 2022 to 2023 https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-2022-to-2023

[8] Mae 74% o bobl yn cytuno mai Llywodraeth y DU (yn San Steffan) sy'n gyfrifol am gadw pobl allan o dlodi. Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Trussell Trust Public Attitudes Survey – gweler ôl-nodyn 2.

[9] Trussell Trust (2023) Hunger in the UK https://www.trusselltrust.org/what-we-do/research-advocacy/hunger-in-the-uk/

[10] Trussell Trust (2023) Hunger in the UK https://www.trusselltrust.org/what-we-do/research-advocacy/hunger-in-the-uk/

[11] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[12] Ymddiriedolaeth Trussell; JRF (2024) Guarantee our Essentials: Reforming Universal Credit to ensure we can all afford the essentials in hard times – gweler ôl-nodyn 3

[13] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[14] Ymddiriedolaeth Trussell (2024), A supportive social security system, which ensures everyone can afford the essentials https://www.trusselltrust.org/what-we-do/research-advocacy/how-to-end-the-need-for-food-banks/

[15] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[16] Yn ôl ymchwil gan Scope, mae bywyd yn costio mwy i bobl anabl, ac mae angen i aelwydydd anabl ddod o hyd i £625 yn fwy ar gyfartaledd bob blwyddyn o gymharu ag aelwydydd nad ydynt yn anabl ar gyfer hanfodion yn unig. M. Oakley; N. Skiada; M. Tibbles; E. McPherson, WP Economics; Scope (2024) Life Costs More https://www.scope.org.uk/campaigns/research-policy/life-costs-more/

[17] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[18] Nid oedd bron i ddwy ran o dair (65%) o bobl â chyflwr iechyd meddwl a atgyfeiriwyd at fanciau bwyd wedi cael unrhyw gymorth iechyd meddwl yn y tri mis cyn iddynt gael eu gorfodi i droi at fanc bwyd. Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9 –

[19] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[20] Ymddiriedolaeth Trussell (2023) Hunger in the UK – gweler ôl-nodyn 9

[21] Ffederasiwn Tai Cenedlaethol; Shelter (2024) The economic impact of building social housing https://www.housing.org.uk/resources/the-economic-impact-of-building-social-housing/

## Cysylltu â ni

Unit 9, Ashfield Trading Estate,
Ashfield Road, Salisbury SP2 7HL

enquiries@trusselltrust.org

01722 580 180

**www.trusselltrust.org**

twitter.com/trusselltrust

facebook.com/trusselltrust

instagram.com/trusselltrust

the trussell trust
Stop UK Hunger

Photo credits: ©Chris Lacey photography

Registered Charity in England & Wales (1110522) and Scotland (SC044246).
Registered Limited Company in England & Wales (5434524).